Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

19 Ionawr 2021

Annwyl John

Yn y Pwyllgor Busnes ar 12 Ionawr, nododd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd y byddai'r ddadl Cyfnod 3 ar y Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) yn cael ei gohirio tan 10 Chwefror. Rwy'n ysgrifennu atoch i egluro pam y bu hyn yn angenrheidiol.

Ar 9 Rhagfyr cyhoeddais Ddatganiad Ysgrifenedig ynghylch taliadau gwasanaeth a godir gan rai cymdeithasau tai a sefydliadau'r trydydd sector ar denantiaethau byrddaliol sicr. Mae'r datganiad wedi'i atodi er hwylustod. Fel y nodir yn y datganiad, mae Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar ddiogelu tenantiaid rhag ffioedd annheg. Fodd bynnag, mae wedi cael canlyniad anfwriadol mewn perthynas â thaliadau gwasanaeth a godir ar denantiaethau byrddaliol sicr gan gymdeithasau tai a darparwyr llety â chymorth. Yn fy Natganiad, nodais y bwriad i gyflwyno Offeryn Statudol i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Ers cyhoeddi'r Datganiad, daeth yn amlwg y bydd angen ôl-ddeddfwriaeth i ddatrys y mater yn llawn. Felly, rwyf wedi gofyn i swyddogion edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno gwelliant i Ddeddf 2019 drwy welliant ychwanegol i Fil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru), sydd eisoes yn gwneud diwygiadau eraill i Ddeddf 2019. Bwriad yr oedi byr i Gyfnod 3 yw rhoi amser ar gyfer paratoi'r gwelliant hwnnw.

Rwy'n ddiolchgar am ddealltwriaeth y Pwyllgor a hoffwn bwysleisio bod y camau hyn wedi'u cymryd i sicrhau y gellir datrys y mater yn gyflym.

Byddai fy swyddogion yn hapus i gyfarfod â'r Pwyllgor i ddarparu briff technegol anffurfiol ar y gwelliant hwn, os ystyriwch y byddai hyn yn ddefnyddiol.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government